**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J W Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | E W Fitzgerald | T M White |
| D W Helliwell | T J Hennegan | C A Holley |
| P R Hood-Williams | M H Jones | P K Jones |
| S M Jones | W G Thomas | |

**Hefyd yn bresennol**

Robert Francis-Davies — Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Huw Mowbray | Rheolwr Datblygu Eiddo |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wy): P Downing, S J Gallagher a/ac L James

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

3 **Cynigion Drafft Cyllideb y Datblygu ac Adfywio**

Aeth y Cynghorydd Robert Francis-Davies, Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth, Jeff Dong, Dirprwy Brif Swyddog Ariannol a Huw Mowbray, Rheolwr Datblygu Eiddo drwy'r cynigion cyllidebol arfaethedig mewn perthynas â Datblygu ac Adfywio, gan amlygu'r prif faterion ac ateb cwestiynau.

4 **Crynhoi Barn a Chyflwyno Argymhellion**

Cytunodd y panel â'r farn a'r argymhellion canlynol am y cynigion cyllidebol mewn perthynas â Datblygu ac Adfywio yr hoffai eu cyflwyno i'r Cabinet:

- Roedd gan y panel bryderon am y gofyniad benthyca cyffredinol, ac nid oedd yn glir faint y byddwn yn ei fenthyca. Mae angen eglurhad ar y panel ar (i) faint y byddwn yn ei fenthyca, (ii) beth fydd costau'r benthyca hwn a (iii) sut byddwn yn ariannu cost ychwanegol y benthyciad.
- Teimlai'r panel nad oedd sicrwydd ynghylch faint o arian y bydd y cyngor yn ei dderbyn na faint y bydd yn rhaid iddo dalu.
- Mynegodd y panel bryder ynghylch yr arian a ddefnyddir dros 15 mlynedd oddi wrth y Fargen Ddinesig. Bydd swm yr arian y byddwn yn ei dderbyn o hyn yn fach iawn ac nid yw hyd yn oed yn talu am y taliadau llog.
- Hoffai'r panel gael eglurhad ynghylch y costau £200,000 ar gyfer ein cyfraniad at drefniadau rhanbarthol y Fargen Ddinesig. Ar gyfer beth y mae'r arian hwn a thros ba gyfnod o amser caiff ei dalu?
- Mynegodd y panel bryder am bwysau ariannol o ganlyniad i daliadau cyllid cyfalaf a hefyd y defnydd o DLlR a'r gronfa cyfartalu cyfalaf i dalu am y taliadau hyn.
- Hoffai'r panel gael rhagor o eglurhad ynghylch yr hyn a adroddir i'r panel o ran sut pennir costau cynlluniau Datblygu ac Adfywio a'r hyn sydd ynghlwm wrthynt.

Yn dilyn y cyfarfod hwn:

Bydd y cynullydd yn cyflwyno barn y panel, ar y cyd â chynullyddion paneli eraill, i'r Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid, sy'n cwrdd ar 19 Chwefror. Yna bydd cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid mynd i gyfarfod y Cabinet ar 20 Chwefror i gyflwyno barn gyfunol paneli perfformiad craffu ac ysgrifennu llythyr at Aelod y Cabinet.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.25pm.